Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar Fedi 20 2018 yn Neuadd Santes Ursula am 8 o'r gloch

Presennol: Huw Griffith, Lyn Davies, Islwyn Jones, Dylan Davies, y Cynghorydd Rowland Rees Evan a'r clerc

Ymddiheuriadau: Morgan Morgan, Margaret Lewis

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

<u>Materion yn codi</u>

Trydan. Cafwyd cyfarfod gyda Simon Bray i egluro'r sefyllfa ynglŷn â'r polion trydan ac mae ef yn mynd i gysylltu gyda Scottish Power.
Biniau Halen. Anfonwyd eto ynglŷn â'r rhain ond gofynnwyd i'r clerc holi unwaith yn rhagor gan fod y Gaeaf yn nesau.
Hysbysfwrdd Trefenter. Dim gwybodaeth bellach.
Wal ar waelod llwybr yr ysgol wedi dechrau cael ei chywiro.

<u>Gohebiaeth</u>

Gwybodaeth am Bwyllgor rheoli Datblygu mis Awst a mis Medi.

Hysbysiad am gyfarfod gan Undeb Amaethwyr Cymru ynglŷn â thaliadau'r Llywodraeth.

Posteri i'w harddangos – un yn rhoi rhif ffôn newydd ar gyfer cysylltu â Gofal Cymdeithasol y tu allan i oriau, ac un yn rhybuddio am sgams drwy'r post.

Gwybodaeth am nifer o ymgynghoriadau gan gynnwys Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cefn gwlad

Argymhellion terfynnol ar Etholaethau Seneddol

Cynnig hyfforddiant ar wahanol agweddau o geisiadau cynllunio ac ymgysylltu â'r gymuned.

Darllenwyd nifer o gasgliadau ac argymhellion y Panel Adolygu'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref. Rhaid aros nawr i weld pa rai fydd yn cael eu mabwysiadu

Derbyniwyd adroddiad gan y clerc ar y cyfarfod pellach yn Waunfawr ynglŷn â'r posiect baw cŵn a chael ar ddeall i rywun fod o amgylch y pentre yn casglu baw cŵn er mwyn ei archwilio ac y byddai yn gwneud hynny eto yn y dyfodol agos. Nodwyd nad oedd hyn ynddo'i hun yn mynd i ddylanwadu ar berchnogion cŵn anghyfrifol.

<u>Ariannol</u>

Cyfrif Banc – Talwyd £28.35 i Scottish Power ar ôl cael nodyn atgoffa. Derbyniwyd rhan o'r praesept sef £1004.00 ac mae un rhandaliad o £1004 i ddod eto. Cyfanswm nawr yn £2147.07

Torri'r fynwent. Cytunwyd i dalu'r Grant Mynwentydd o £600 i'r CFfI am eu gwaith. Ar ôl gwneud hyn bydd £1547.07 ar ôl. Nodwyd y dylid atgoffa'r Clwb blwyddyn nesaf fod angen torri ymylon y fynwent hefyd i fyny at y waliau a thu mewn i'r rheiliau sydd o amgylch rhai o'r beddau.

Cyfrif rhif 2. Canolfan Bethel wedi talu'r siec i mewn. Cyfanswm cyfrif 2 nawr yn £26,551.48

Unrhyw Fater Arall

Trafodwyd cyflwr peryglus y Llwybr Bach gan fod dŵr yn llifo o'r hewl wedi symud cerrig a dod â gwreiddiau coed i'r golwg. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r adran berthnasol yn Aberaeron.

Codwyd mater y cerbyd sydd wedi ei adael ar ochr y ffordd tu allan i Tŷ Rowan ers blynyddoedd a gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y perchennog gan awgrymu y dylid ei symud.

Dyddiad y cyfarfod nesaf Hydref 18 2018